Diogelu Data

Mae Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Sir y Fflint yn delio â data o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 ac o dan Reoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) 2018. Gall peth o'r wybodaeth hon fod yn sensitif, megis troseddau, trafodion a chollfarnau. Gallwn rannu ychydig neu holl wybodaeth gydag asiantaethau partner arall fel yr amlinellir yng nghanllawiau'r Llywodraeth. Wrth gynnwys trydydd parti byddwn yn cymryd pob cam rhesymol er mwyn sicrhau bod eich data personol yn cael ei gadw'n ddiogel a'i drin yn gyfrinachol. Cadwn eich data'n ddiogel yn unol â chanllawiau Cyngor Sir y Fflint.

Os ydych chi'n pryderu am roi manylion personol i ni neu i ni rannu gydag eraill, trafodwch hyn gydag aelod o staff sy'n delio â'ch achos. Byddwn ni'n egluro beth allwch chi wneud. Dewch o hyd i wybodaeth am eich hawliau o dan Ddeddf Diogelu Data a GDPR ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth.
www.ico.org.uk

Unrhyw Gwestiynau?

Os nad ydych chi'n deall unrhyw wybodaeth neu eisiau gofyn cwestiwn, siaradwch â'ch Swyddog Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a fydd yn hapus i egluro, neu ysgrifennwch at:

Rheolwr Gweithrediadau
Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Sir y Fflint
Neuadd Y Sir
Raikes Lane,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint
CH7 6ND
☎ *(01352) 701125*

Sir y Fflint
Flintshire

HTTP://WWW.FLINTSHIRE.GOV.UK/EN/RESIDENT/CONTACT-US/PRIVACY-NOTICE.ASPX

HTTP://WWW.SIRYFFLINT.GOV.UK/CY/RESIDENT/CONTACT-US/PRIVACY-NOTICE.ASPX

GWASANAETH CYFIAWNDER IEUENCTID SIR Y FFLINT

Gwybodaeth Amdanoch chi

Mae Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Sir y Fflint yn ceisio rhoi'r gwasanaeth gorau bosib i chi. Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn rhannu gwybodaeth amdanoch gyda gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda ni er mwyn:

- cael y cymorth a'r cyngor sydd ei angen arnoch;
- eich diogelu chi ac eraill;
- sicrhau ein bod yn cyflawni ein swyddi'n iawn.

Bydd y wybodaeth rydym yn ei rannu gyda gweithwyr proffesiynol yn dangos ein bod yn gweithio gyda chi, fel y gallwn gydlynu'r gwaith rydym yn ei wneud i chi. Caiff unrhyw wybodaeth pellach y gofynnir amdano ei rannu os y caniateir hynny gennych chi'n unig neu os yw'n ofynnol o dan gyfraith.

Asiantaethau Partner

Er mwyn i ni gyflawni ein gwaith, gall Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid rannu eich gwybodaeth i weithwyr proffesiynol eraill os oes angen, yn cynnwys:

- Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
- Yr Heddlu
- Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid
- Ysgolion / Darparwyr Addysg
- Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol y GIG
- Gwasanaethau Cymdeithasol Plant
- Gwasanaeth Prawf

Cedwir y wybodaeth yng nghronfa ddata diogel y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac mewn ffeiliau papur o dan glo.

Dim ond gweithwyr proffesiynol yr asiantaethau sydd ynghlwm a ddefnyddir y wybodaeth hon.

Gwybodaeth a'r Gyfraith

Weithiau mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i rannu gwybodaeth amdanoch ac oherwydd Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 nid oes angen eich caniatâd arnom i wneud hynny. Mae esiamplau o'r rhesymau hynny'n cynnwys eich diogleu chi neu eraill yn erbyn perygl o niwed neu rwystro unrhyw droseddau yn y dyfodol.

Gallwch ddod o hyd i unrhyw agwedd o'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 ar wefan BCI. https://www.gov.uk/government/organisations/youth-justice-board-forengland-and-wales

Cyfle Cyfartal

Mae hawl gennych ar bob cyfrif, i gael eich trin yn deg, gyda pharch a heb wahaniaethu. Golyga hyn y bydd staff y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn eich trin yn deg waeth beth yw eich ethnigrwydd, rhyw, rhywioldeb neu anabledd. Mae hefyd disgwyl i chi ymddwyn yr un mor deg tuag at bobl eraill.

Gweithdrefn Gwyno

Os ydych chi'n teimlo y cawsoch eich trin yn anheg neu'n anrhesymol gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid gallwch gwyno. Er mwyn gwneud hyn, cysylltwch â Rheolwr Gweithrediadau Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Sir y Fflint ar 01352 701125 neu yot.admin@Fintshire.gov.uk neu at y cyfeiriad dros y dudalen.